

OWEN, JOHN (1757 - 1829), ysgrifennwr ar bynciau crefyddol

Enw: John Owen
Dyddiad geni: 1757
Dyddiad marw: 1829
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: ysgrifennwr ar bynciau crefyddol
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn 1757 ym Machynlleth, lle y bu am lawer blwyddyn yn cadw busnes groser a hefyd yn bartner gyda [Hugh Williams 'y Chartist'](#) yng ngwaith plwm Dylife. Ymunodd yn fore â'r Methodistiaid Calфинаidd, ond er ei fod yn Fethodist ymroddgar, ni ddygymyddai ag ordeiniad 1811. Wedi marw ei wraig, symudodd i Langyndeayrn yn Sir Gaerfyrddin, ac yno y bu farw, yn 1829, yn 72 oed. Ymddiddorai mewn diwinyddiaeth a seryddiaeth; ac y mae rhywbeth anarferol yn ei gynhyrchion, pan gofiwn ei yrfa. Cyhoeddodd yn 1788 *Troedigaeth Atheos*, math o epig, efelychiad o '[Bantycelyn](#),' gyda nodiadau a fenthyciwyd gan mwyaf o *Golwg ar y Byd* [David Lewis](#) o Langatwg Nedd; aeth hwn i ail argraffiad yn 1818 (a thrydydd yn 1871); gweler y disgrifiad ohono yn *Llyfryddiaeth y Cymry*, 633. Yn 1797 cyhoeddodd *Golygiadau ar Achosion ag Effeithiau'r Cyfnewidiad yn Ffrainc*, dogfen bur nodedig o agwedd y Methodistiaid Cymreig at broblemau gwleidyddol - amlinelliad ohono gan [J. J. Evans](#), *Dylanwad y Chwyldro Ffrengig*, 169-70. I 1818 y perthyn *Golygiad ar Adfywiad Crefydd yn yr Eglwys Sefydledig yng Nghymru o ddeutu y flwyddyn 1737*, gwaith a achlysurwyd gan farwolaeth [John Evans](#) o'r Bala, ac sy'n cynnwys nodiadau ar bregethwyr y Methodistiaid Calфинаidd. Heblaw'r uchod, cyhoeddodd John Owen *Difrifol Ystyriaeth*, 1789; *Tair Cerdd Newydd*, 1795; a *Golygiad ar Athrawiaeth y Drindod ac ar Berson Crist*, 1820. Yr iddo oedd [D. C. Lloyd-Owen](#).

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

R. Williams, *Montgomeryshire Worthies (1894)*

Catalogue of Printed Literature in the Welsh Department, Cardiff Free Libraries (1898)

a'r cyfeiriadau uchod

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [77869596](#)

Wikidata: [Q20733586](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

